

Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 a 1963 Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

Ffurflen Gais Trwydded Perfformiad a Gweithgaredd Plant (Cymru) ar gyfer plant [sy'n byw/cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd] yng nghyffiniau

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Nodwch: dylid llenwi a chyflwyno'r ffurflen yma i'r awdurdod trwyddedu o leiaf 21 diwrnod cyn y perfformiad neu'r gweithgaredd cyntaf y gofynnir am drwydded ar ei gyfer. Os na chaiff ei chyflwyno erbyn hynny, mae'n bosibl bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwrthod rhoi trwydded. Mae'n bosibl na chaiff trwyddedau eu rhoi os na chaiff y cais ei dderbyn o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad y gofynnir am drwydded ar ei gyfer. Mae'n anhebygol y caiff trwydded ei rhoi os daw cais i law llai na 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad mae angen y drwydded.

Mae cyfeiriadau i 'y rheoliadau' yn ymwneud â Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

Rhan A: Gwybodaeth i'w darparu gan y ceisydd mewn perthynas â'r plentyn

Gweler Rheoliad 4 a Rhan 1 Atodlen 2 y Rheoliadau.

Fel arfer, bydd raid i'r ceisydd gael yr wybodaeth yma gan riant y plentyn. Rhaid i'r rhiant lofnodi'r ffurflen, unwaith iddi gael ei chwblhau, fodd bynnag, rhaid i'r ceisydd gyflwyno'r ffurflen, oni bai bod y rhiant hefyd yn gyfrifol am drefnu'r perfformiad neu'r gweithgaredd.

A1) Enw'r plentyn:	
A2) Cyfeiriad y plentyn:	
A3) Dyddiad geni'r plentyn:	
A4) Enw a chyfeiriad yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd: NEU Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, enw a chyfeiriad athro preifat neu athrawes breifat y plentyn:	

Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Enghreifftiol - fersiwn 1.0 Hydref 2015

<p>A5) Manylion pob trwydded mewn perthynas â'r plentyn a roddwyd yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr, neu gan unrhyw awdurdod addysg yn yr Alban, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y mae'r cais yn cael ei wneud iddo¹, gan ddatgan -</p> <p>a) Enw'r awdurdod;</p>	
<p>b) y dyddiad pan roddwyd y drwydded;</p>	
<p>c) dyddiadau a natur y perfformiadau neu'r gweithgareddau:</p>	

<p>A6) Manylion pob cais mewn perthynas â'r plentyn am drwydded a wrthodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gan unrhyw awdurdod lleol, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y mae'r cais yn cael ei wneud iddo, gan ddatgan -</p> <p>a) Enw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg;</p>	
<p>b) Y rhesymau (os ydyn nhw'n hysbys) dros wrthod rhoi trwydded:</p>	

<p>A7) Manylion unrhyw berfformiadau nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar eu cyfer² y cymerodd y plentyn ran ynddyn nhw yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys perfformiadau nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar eu cyfer, gan ddatgan -</p> <p>a) Dyddiad y perfformiad(au);</p>	
<p>b) Nifer y diwrnodau y cynhaliwyd y perfformiad;</p>	
<p>c) Teitl y perfformiad(au);</p>	
<p>ch) Enw a chyfeiriad y person(au) a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad(au):</p>	

¹ Bydd hyn dim ond yn berthnasol os yw'r plentyn wedi symud rhwng awdurdodau yn ystod y 12 mis diwethaf.

² Adran 37(3) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963: mae hyn yn cynnwys perfformiadau gaiff eu trefnu gan ysgolion, pan fo corff o bobl wedi rhoi cymeradwyaeth, a phan fo'r plentyn wedi perfformio dim mwy na 4 diwrnod yn ystod y 6 mis cyn y perfformiad perthnasol

<p>A8) Y dyddiadau (os oes rhai) pan oedd y plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais oherwydd ei fod wedi cymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau, gan gynnwys unrhyw rai nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar eu cyfer:</p>	
<p>A9) Swm unrhyw arian a enillwyd gan y plentyn yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ddatgan a oedd yr arian a enillwyd yn arian mewn cysylltiad â pherfformiadau neu weithgareddau y rhoddwyd trwydded ar eu cyfer neu berfformiad nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar ei gyfer:</p>	

Rhan B: Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan y ceisydd am y perfformiadau neu'r gweithgareddau

Gweler Rhan 2 neu Atodiad 2 y Rheoliadau.

Y **Ceisydd** yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am drefnu perfformiadau neu weithgareddau, a fydd yn sicrhau bod amodau'r drwydded yn cael eu diwallu.

Mae'n arfer gorau i holl sefydliadau sy'n cynnwys plant yn eu perfformiadau, neu sy'n talu plant i fodelu neu i gymryd rhan mewn chwaraeon weithredu neu ddatblygu polisi diogelu plant, yn ogystal â'i adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd, a sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn gyfarwydd ag ef.

Teitl:	
Enw:	
Teitl eich swydd:	
Sefydliad:	
Cyfeiriad:	
Ffôn:	Ffôn Symudol:
E-bost:	

B1) Oes gyda'ch sefydliad bolisi amddiffyn neu ddiogelu plant yn ei le? Pryd cafodd ei ddiweddarau? Ychwanegwch ddolen neu atodi copi.	
--	--

B2) Ydych chi wedi cwblhau asesiad risg? Os ydych chi, atodwch ef â'r cais yma. Os nad ydych chi, esboniwch sut byddwch chi'n adnabod a lliniaru risgiau i'r plentyn drwy gydol y cyfnod mae'r drwydded ar ei gyfer.	
--	--

B3) Enw a natur ³ y perfformiadau neu weithgareddau y gofynnir am drwydded mewn cysylltiad â nhw:	
Disgrifiwch, mor fanwl â phosibl, yr hyn y byddai'n ofynnol i'r plentyn ei wneud. Cofiwch gynnwys gwybodaeth am yr amgylchedd y bydd y plentyn yn perfformio/gweithio ynddo ac unrhyw wybodaeth gyd-destunol arall a fyddai o bosibl yn ein helpu ni wrth asesu'r risgiau posibl, boed yn gorfforol, yn emosiynol neu'n seicolegol, i'r plentyn ⁴ .	
B4) Y man lle y cynhelir y gweithgareddau, y perfformiadau a'r ymarferion y gofynnir am drwydded ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw gyfnodau yn y fan a'r lle:	
B5) Dyddiadau am amseroedd gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer: Os nad yw'r dyddiadau'n hysbys ar hyn o bryd ⁵ , nodwch nifer y diwrnodau mae angen y drwydded ar eu cyfer, a'r cyfnod y mae angen y drwydded ar ei gyfer er mwyn i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion.	
B6) Parhad neu hyd amser cyfan disgwylidig y gweithgareddau neu berfformiadau (gan gynnwys unrhyw ymarferion) y gofynnir am drwydded mewn cysylltiad â nhw:	
B7) Bras amcan o hyd ymddangosiad y plentyn mewn perfformiadau neu weithgareddau o'r fath:	

³ Er enghraifft, rhai theatraidd, cerddorol, dawnsio, ffilmio, chwaraeon, modelu.

⁴Efallai na fydd yn ofynnol ddarparu sgrïpt - mae disgrifiad o'r gweithgaredd a'r cyd-destun yn fwy pwysig.

⁵Efallai nad yw'n bosibl pennu'r amserlen ffilmio ymlaen llaw, neu efallai fod y gweithgaredd yn dibynnu ar y tywydd.

Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Enghreifftiol - fersiwn 1.0 Hydref 2015

B8) Faint o waith nos (os oes gwaith nos) y gwneir cais am gymeradwyaeth ar ei gyfer, gan ddatgan: a) bras amcan o nifer y diwrnodau; ⁶ :	
b) bras amcan o'i hyd ar bob diwrnod:	
(c) y rheswm y mae rhaid i'r perfformiad fod ar ffurf gwaith nos:	

B9) a) Y symiau sydd i'w hennill gan y plentyn drwy gymryd rhan yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau:	
b) Enw, cyfeiriad a disgrifiad y person y mae'r symiau i'w talu iddo, os na fyddant yn cael eu talu i'r plentyn o dan sylw. ⁷	

B10) Pan ofynnir am drwydded mewn cysylltiad â pherfformiad, y trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw ymarferion cyn y perfformiad cyntaf y gofynnir am y drwydded. Ar gyfer pob ymarfer, nodwch a) y dyddiad;	
b) y man lle y mae i'w gynnal; a	
c) bras amcan o'r amser a'r hyd.	

B11) Y diwrnodau neu'r hanner diwrnodau y gofynnir am ganiatâd i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol arnyn nhw i'w alluogi i gymryd rhan yn y perfformiadau, ymarferion neu weithgareddau:	
Rhaid i <u>chi</u> atodi llythyr gan bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd neu gan athro preifat neu athrawes breifat y plentyn os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, sy'n cytuno i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol neu o addysg, ac sy'n nodi na fydd addysg a lles y plentyn yn cael eu heffeithio'n wael gan hyn.	

⁶ At y dibenion yma, rhaid barnu bod unrhyw berfformiad sy'n digwydd ar ôl hanner nos a chyn yr awr gynharaf a ganiateir wedi digwydd cyn hanner nos. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn perfformio ar ddydd Mawrth ac yn perfformio ar ôl hanner nos, yn oriau man ar fore Mercher, ystyrir hyn yn un diwrnod (dydd Mawrth).

⁷ Yn achos unigolyn, beth yw ei berthynas â'r plentyn? Yn achos cwmni neu sefydliad, beth yw ei berthynas â'r plentyn?

<p>B12) Y trefniadau arfaethedig (os oes rhai) ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer, gan ddatgan - a) pan fo'r addysg i'w darparu gan ysgol, enw a chyfeiriad yr ysgol:</p>	
<p>(b) pan fo'r addysg i'w darparu ac eithrio drwy gyfrwng ysgol: i. enw, cyfeiriad a chymhwyster/cymwysterau'r athro preifat arfaethedig neu'r athrawes breifat arfaethedig;</p>	
<p>ii. y man lle y caiff y plentyn ei addysgu;</p>	
<p>iii. y cwrs astudio arfaethedig;</p>	
<p>iv. nifer y plant eraill sydd i'w haddysgu gan yr athro preifat neu'r athrawes breifat yr un pryd â'r plentyn, a rhyw ac oedran pob plentyn;</p>	
<p>v. faint o addysg mae'r plentyn i'w gael: Yn unol â Rheoliad 15 (3) (d) Rheoliad Plant (Gweithgareddau Perfformiadau) (Cymru) 2015</p>	
<p>B13) Enw a chyfeiriad yr hebryngwr arfaethedig, neu pan na fo'n ofynnol cael unrhyw hebryngwr o'r fath, enw a chyfeiriad y rhiant neu'r athro neu'r athrawes a fydd â gofal dros y plentyn:</p>	
<p>B14) Enw'r awdurdod lleol neu, yn yr Alban, yr awdurdod addysg, a gymeradwyodd gynt benodiad yr hebryngwr:</p>	
<p>B15) Nifer y plant sydd i fod yng ngofal yr hebryngwr yn ystod yr amser y bydd â gofal dros y plentyn, a rhyw ac oedran pob plentyn:</p>	
<p>B16) Cyfeiriad unrhyw lety lle y bydd y plentyn yn byw os yw'n wahanol i'r man lle y byddai'r plentyn yn byw fel arfer, nifer y plant eraill, a manylion am yr hebryngwr (os oes un), a fydd yn byw yn yr un llety:</p>	

Perfformiadau a Gweithgareddau Plant
Trwydded Engbreiffiol - fersiwn 1.0 Hydref 2015

<p>B17) Bras amcan o hyd yr amser y bydd y plentyn yn ei dreulio yn teithio i'r man lle y cynhelir y perfformiad ac o'r man hwnnw, gan gynnwys:</p> <p>a) Trefniadau (os oes rhai) ar gyfer cludo'r plentyn i'r man hwnnw; a</p>	
<p>b) Trefniadau (os oes rhai) ar gyfer cludo'r plentyn o'r man hwnnw;</p>	

<p>B18) Enw unrhyw awdurdod lleol arall neu, yn yr Alban, unrhyw awdurdod addysg arall y mae cais wedi ei wneud iddo i blentyn arall gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os nad yw'n hysbys adeg gwneud y cais, mae i'w ddarparu pan fo'n hysbys): (Bydd hyn yn helpu'r awdurdodau lleol perthnasol i fod yn gyson)</p>	
---	--

Llofnodion

Rwy'n tystio hyd eithaf fy ngwybodaeth bod y manylion rwy wedi'u rhoi yn y cais hwn yn gywir. Gan hynny, rwy'n gwneud cais am drwydded o dan Adran 37 Deddf Plant a Phobl Ifainc 1963:

Llofnod y ceisydd: (l'w lofnodi gan yr unigolyn a enwir ar ddechrau Adran B)	
Enw'r ymgeisydd:	
Dyddiad:	

Rwy'n tystio hyd eithaf fy ngwybodaeth bod y manylion rwy wedi'u rhoi yn y cais hwn yn gywir. Rwy'n rhoi caniatâd i'm plentyn gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd sydd wedi'i nodi uchod yn Adran B:

Llofnod y rhiant: (l'w lofnodi gan y person â chyfrifoldeb rhiant ⁸ dros y plentyn sydd wedi'i enwi ar ddechrau Adran A)	
Enw'r rhiant:	
Dyddiad:	

Nodiadau ychwanegol:

- Mae fersiynau electroneg o'r ffurflen yma, ynghyd â dogfennau electroneg, yn dderbyniol. Mae hyn yn cynnwys llofnodion.
- Dylai'r ceisydd sicrhau fod y rhiant/gwarchodwr a'r hebryngwr yn cael copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau. Dylech chi gyflwyno'r ffurflen i'r awdurdod lleol.
- Os bydd unrhyw un yn methu dilyn unrhyw amod a osodwyd wrth roi trwydded, neu'n rhoi gwybodaeth anghywir yn ymwybodol neu'n fyrbwyll mewn cais am drwydded neu mewn perthynas â chais am drwydded, mae'n atebol i dalu dirwy o ddim mwy na £1,000 (lefel 3 ar y raddfa safonol) neu garchariad am gyfnod dim hwy na 3 mis, neu'r ddau (Adran 40 o Ddeddf Plant a Phobl Ifainc 1963).

⁸Fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989, ystyr "parental responsibility" yw'r hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd â rhiant dros y plentyn o dan sylw, a'i eiddo.

Datganiad meddygol i'w lenwi a'i lofnodi gan y rhiant

Enw'r plentyn		
Ydy'ch plentyn yn dioddef o'r cyflyrau isod:		Os 'Ydy', nodwch fanylion, gan gynnwys unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth:
Asthma	Ydy/Nac ydy	
Alergedd	Ydy/Nac ydy	
Cyflwr y croen	Ydy/Nac ydy	
Nam ar y clyw	Ydy/Nac ydy	
Nam ar y golwg	Ydy/Nac ydy	
Anabledd dysgu	Ydy/Nac ydy	
Anabledd corfforol	Ydy/Nac ydy	
Cyflwr meddygol	Ydy/Nac ydy	
Ydy'ch plentyn wedi bod yn cymryd unrhyw feddyginiaeth(au) yn rheolaidd?	Ydy/Nac ydy	
Ydy'ch plentyn wedi cael ei weld, neu'i atgyfeirio, i ymgynghorydd yn yr ysbyty yn ystod y 6 mis diwethaf?	Ydy/Nac ydy	

Cadarnhaf fod gyda fi gyfrifoldeb rhiant ⁹ dros y plentyn yma.	Llofnod y rhiant:
	Enw (priflythrennau):
Cyfeiriad (os yw'n wahanol i gyfeiriad y plentyn)	
Cyfeiriad e-bost y rhiant	
Rhif ffôn y rhiant	
Dyddiad:	

⁹ Fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989, ystyr "parental responsibility" yw'r hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd â rhiant dros y plentyn o dan sylw, a'i eiddo. Tudalen 10 o 13

Dogfennau Gofynnol

Cofiwch sicrhau eich bod chi wedi cynnwys y dogfennau canlynol¹⁰ gyda'r cais sydd wedi'i lofnodi:

Dogfen	Cadarnhau
Copi o dystysgrif geni'r plentyn (mae copïau wedi'u sganio yn dderbyniol - peidiwch ag anfon copïau caled gwreiddiol) ¹¹ : (<i>Cwestiynau A1 ac A3</i>)	
Dau ffotograff union yr un fath o'r plentyn a dynnwyd yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y cais - printiau <i>neu'n</i> electroneg (e.e. ffeil jpeg) ¹² :	
Copi o'r contract, y contract drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb sy'n rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiadau, neu'n rheoleiddio'r gweithgaredd, y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer neu ar ei gyfer:	
Y polisi neu'r polisiâu amddiffyn neu ddiogelu plant a gymhwysir gan y ceisydd: (<i>Cwestiwn B1</i>)	
Yr asesiad risg (os yw wedi'i gwblhau) ar gyfer y perfformiad neu'r gweithgaredd: (<i>Cwestiwn B2</i>)	
Llythyr gan bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd neu gan athro preifat neu athrawes breifat y plentyn os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, sy'n cytuno i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol neu o addysg, ac sy'n nodi na fydd addysg a lles y plentyn yn cael eu heffeithio'n wael gan hyn. Ffurflen wedi'i hatodi (<i>Cwestiwn B11</i>) <i>tudalen 11 a 12</i>	
Y datganiad meddygol wedi'i lenwi a'i lofnodi gan y rhiant <i>tudalen 9</i>	

¹⁰ Rheoliad 4(1)(d) a Rhan 3 o Atodlen 2 y Rheoliadau

¹¹ Mewn amgylchiadau eithriadol, pan nad oes modd darparu tystysgrif geni'r plentyn yn rhan o'r cais (e.e. oherwydd nad oes gan y plentyn dystysgrif geni), mae'n bosibl y bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn tystiolaeth amgen.

¹² Ddylai'r ddelwedd ddim cael ei haddasu mewn unrhyw ffordd. Dylai'r llun fod yn llun o wyneb y plentyn, wedi'i gymryd mewn golau da.

Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant

Datganiad y Pennaeth

Dylai'r datganiad hwn gael ei lenwi gan bennaeth yr ysgol mae'r pennaeth yn ei mynychu ar hyn o bryd a'i chyflwyno i'r awdurdod trwydded gan y ceisydd¹³, i gydfynd â'r **Ffurflen Gais Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant**.

Enw'r plentyn	
Ysgol	
Enw'r perfformiad/gweithgaredd	
Natur y perfformiad/gweithgaredd ¹⁴	
Dyddiadau gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion NEU Nifer y diwrnodau, a'r cyfnod pryd, y gofynnir i'r plentyn gael cymryd rhan mewn gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion, nad yw'n hwy na chwe mis ¹⁵	

Pwysig - Drwy lenwi'r datganiad hwn, rydw i (pennaeth y plentyn) yn cadarnhau (dileu lle bo'n briodol):

1. caiff/ni chaiff **y plentyn** fod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau neu ar nifer y dyddiadau yn ystod y cyfnod a bennir at ddiben y gweithgaredd, perfformiad neu ymarfer a nodir

a:

2. Mae'n bosibl y **bydd/na fydd** addysg a lles y plentyn yn cael eu heffeithio'n wael o ganlyniad i gymryd rhan yn y gweithgaredd, perfformiad neu ymarfer a nodir

Llofnod:.....

Enw llawn
(priflythrennau):.....

Dyddiad:.....

¹³ Cais - yr unigolyn sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgaredd neu'r cynhyrchiad

¹⁴ Er enghraifft, rhai theatraidd, ffilmio, chwaraeon, modelu, dawnsio

¹⁵ RHAID cael caniatâd y pennaeth ar gyfer pob achlysur y mae'r plentyn i ffwrdd o'r ysgol

